

Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor a gynhaliwyd ar y 3ydd o Ionawr 2019.

- 1 Presennol - Edward Evans (Cadeirydd) Richard Parry - Bryncir, John Jones Clifford Williams Maldwyn Owen - Garndolbenmaen, Dafydd Thomas Eifion Williams Gwenno Emlyn Huws - Penmorfa, Gwilym Evans - Prenteg, Huw Pritchard Delyth Evans Meinir Raine - Pentrefelin, Megan Ll Williams - Golan. Cynghorydd Alwyn Gruffydd. Cynghorydd Stephen Churchman.
- 2 Ymddiheuriadau - Amanda N Owen, Anwen Humphreys, Richard Williams.
- 3 Ddim yn bresennol - neb.
- 4 Datgan buddiant - neb.
- 5 Cywirdeb y cyn-gofnodion - 6/12/18. Gwenno E Huws yn datgan eu cywirdeb a Clifford Williams yn eilio gyda un newid i eitem 7. (Mynwent Prenteg bachyn nid clo sydd ar y gât)
- 6 Materion yn codi o'r cyn-gofnodion

Cynllun Gwarchodaeth Ardal Criccieth - 'Our Watch' wedi cadarnhau y gall y Cyngor Cymuned dderbyn yr arian. Clerc i fancio'r siec.

Golau Stryd Bron Awen Prenteg - heb dderbyn ateb gan yr Adran Golau Stryd. Clerc i gysylltu eto.

Materion Asiantaeth Priffyrdd- drych Penmorfa a Glandwyfach Bryncir. Heb dderbyn ateb. Clerc i gysylltu eto.

Pentrefelin - brigyn ar lôn Tabor wedi ei glirio.

Archwilwyr Allanol - heb dderbyn eglurhad am y cynnydd sylweddol yn yr anfoneb ar gyfer archwiliad 2018.

Lôn Golan- adroddodd y Cynghorydd Stephen Churchman y sefyllfa ddiweddaraf ynglŷn â'r lôn. Yn wreiddiol, cynlluniwyd i wneud y gwaith yn 2016/17, ond oherwydd gorwariant yn y gyllideb, cafodd y gwaith ei ohirio tan 2017/18. O ganlyniad i'r tywydd poeth yn ystod Haf 2018, penderfynwyd gohirio'r gwaith. Mae'r deunyddiau ar gyfer gwneud y

gwaith yn y storfa ym Mhenamser a gobeithir y bydd y gwaith yn cael ei gwblhau yn fuan.

- 7 Mynwentydd - dim i'w adrodd y mis yma.
- 8 Llwybrau Cyhoeddus - dim i'w adrodd y mis yma.
- 9 Adroddiad Pentrefi

Bryncir

Lôn cyn yr ail fynedfa i Mart Bryncir yn rhoi. Clerc i gysylltu gyda'r Adran Cefnffyrdd.

Penmorfa

Tŷ Mawr - gwteri yn llawn o gerrig mân. Nid yw'r arwydd sy'n cael i ysgogi gan gerbydau yn gweithio. Clerc i gysylltu gyda'r Adran Cefnffyrdd.

Garndolbenmaen

Angen glanhau'r cwteri o Cambrian Terrace i lawr i'r lôn fawr. Clerc i gysylltu gyda'r Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd.

Tai Bro Gwgan - er i'r Cyngor Cymuned gysylltu gyda Grŵp Cynefin ym Mai 2017, nid yw'r gwaith paentio wedi cael ei wneud. Clerc i gysylltu eto.

Prenteg

Angen glanhau'r lôn o'r pentref i fyny. Clerc i gysylltu gyda'r Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd.

Cyffordd B4410 - oherwydd traul, mae carreg wedi dod i wyneb y lôn ac yn beryg yn y nos. Clerc i gysylltu gyda'r Adran Priffyrdd.

- 10 Cyllideb 2019 - 2020 a gosod praesept

Cyflwynwyd adroddiad gan y Clerc yn dangos -

- Gwariant y Cyngor hyd at 31/12/18

- Amcangyfrif o'r gwariant hyd at 31/3/19
- Cyllideb drafft 2019 - 2020.

Edrychwyd ar y ffigyrau a glustnodwyd ar gyfer yr eitemau gwariant unigol.

Eglurodd y Clerc fod y cyfanswm taliadau dipyn yn uwch na'r incwm disgwylidig a llynedd bu'n rhaid trosglwyddo arian o'r cyfrif cadw i wneud fyny am y diffyg incwm.

Rhodddwyd yr opsiynau canlynol ymlaen -

- Defnyddio'r arian yn y cyfrif cadw
- Cynyddu'r praesept.

Trafodwyd yr angen i gadw arian wrth gefn ar gyfer y prosiectau canlynol -

- Adnewyddu llochesi bws
- Adnewyddu sied Mynwent Bethel
- Atgyweirio wal mynwent Eglwys St Michael's Cwm Pennant
- Llenwi biniau halen
- Mynwent Bethel yn llenwi a bydd angen ystyried prynu mwy o dir.

Derbyniwyd 3 cynnig -

Codi'r praesept i £18,000 - Gwilym Evans yn cynnig a Dafydd Thomas yn eilio.

Codi'r praesept i £14,000 - Richard Parry yn cynnig a Maldwyn Owen yn eilio.

Codi'r praesept i £16,000 - Eifion Williams yn cynnig a neb yn eilio.

Cynhaliwyd pleidlais a phasiwyd i gynyddu'r praesept i £18,000.

Hefyd, cytunwyd i adolygu'r ffioedd claddu.

11 Adolygu gofynion yr archwilwyr allanol ee rheolau sefydlog ac asesiad risg

Dim newid i'r asesiad risg. Gwaith o adolygu'r rheolau sefydlog yn parhau.

12 Gwefan

Oherwydd rhesymau technegol, penderfynwyd dadwneud y penderfyniad blaenorol a wnaethpwyd ar 26 Hydref 2017 a pheidio defnyddio cyfeiriadau e-bost ynghlwm a'r wefan. Yn hytrach bydd pob Cynghorydd yn agor cyfeiriad e-bost gyda'u cyflenwyr we bresennol gan ddefnyddio enw~~cyngordolbenmaen@~~.

13 Tendrau

Penderfynwyd gofyn i'r contractwyr presennol os ydynt yn fodlon parhau gyda'r gwaith am y flwyddyn 2019 - 2020. Hefyd, ychwanegu'r llwybr ger Canolfan Gymdeithasol Golan i'r rhestr llwybrau a gofyn i'r contractwyr am bris.

14 Gohebiaeth

Llythyrau gan Cyngor Gwynedd - Adran Cynllunio - Ymgynghori Cyhoeddus Canllawiau Cynllunio - er gwybodaeth.

Ymgynghoriad ar Bolisi Gosod Tai yng Ngwynedd - cynnwys ar Agenda cyfarfod mis Chwefror.

Cwmni Hamdden Gwynedd - er gwybodaeth.

Gohebiaeth ychwanegol

- a Cylch yr Iaith - Canolfannau Iaith Gwynedd ysgrifennu at Pennaeth Gwasanaethau Addysg Cyngor Gwynedd i ofyn iddo rhoi heibio'r bwriad i ail-strwythuro'r Canolfannau Iaith.
- b Unllais Cymru - Hyfforddiant Ionawr i Mawrth - er gwybodaeth.
- c NALC cyflog clerics o 1af Ebrill 2019 - er gwybodaeth.
- ch Cynulliad - Cynghorau Tref a Chymuned - ardaloedd gweithredu Llywodraeth Cymru - er gwybodaeth.

15 Cynllunio

Rhestrau 21/12/18

Ceisiadau Cynllunio - dim

16 Materion Ariannol

Ceisiadau am arian

Canolfan Gymdeithasol Golan

Neuadd Goffa Penmorfa a'r Cylch

Canolfan Prenteg

Canolfan Pentrefelin

Cylchwyl Lenyddol a Cherddorol Glannau Dwyfach

Clwb Ffermwyr Ifanc Dyffryn Madog

Theatr Bara Caws

Ychwanegwyd

Cylch Meithrin Ysgol y Gorlan (derbyniwyd 30/12/18)

Cymdeithas Cymunedol Garndolbenmaen (derbyniwyd 31/12/18)

Trafod ym mis Chwefror.

Monitro'r gyllideb - Cynghorwyr Prenteg i wirio'r llyfrau am y cyfnod Hydref i Rhagfyr cyn dechrau cyfarfod mis Chwefror.

Biliau i'w talu

Cyfog Clerc = £237.99

Ffôn = £ 10.00

Cyfrifiadur = £ 15.00

HMRC = £ 59.40

Costau gweinyddol/costau teithio = £109.33

Derbyniadau: Pritchard & Griffiths £220.00

Balansau Cyfrifon Banc: Cyfredol £6,472.22 Cadw £16,784.90

17 Dewis gohebiaeth i fynd i'r wasg/gwefan

- Praesept
- Canolfannau Iaith